

Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru  
Plas y Brenin–7.30 y.h. 24 Mai 2006.

1. Presennol: GJ, MPR, LIG, AW, DH, CJ, JW, AH, MT, GR.
2. Ymddiheuriadau: IapG, IJ, JAJ.
3. Sut i hyrwyddo'r Clwb. Ar ol trafodaeth cytunodd y Pwyllgor ar y syniadau canlynol:
  - gweithio trwy ysgolion
  - lawnsio'r Wefan ( DH)
  - cwblhau'r taflen hyrwyddo (MPR)
  - diweddarau'r pecyn recriwtio (MPR)
  - creu erthygl craidd ar gyfer papurau bro (DH)
4. Polisi plant a phobl ifanc:
  - yn anffodus ni fu cynnydd ers y cyfarfod diwethaf. Ma'r gwybodaeth priodol i gyd ar gael o Wefan y CMP (GJ)
  - pe bai'r Clwb am drefnu teithiau blasu ar y cyd efo'r Partneriaeth awyr agored bydd rhaid cadarnhau'r sefyllfa insiwrans a chaniatad rhiant i'r sawl o dan 18 oed (CJ)
5. Materion CMP:
  - cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol a chyfarfod ardal
  - bwriadir cynnal cyfarfod agored yn y Gogledd er mwyn cwrdd a'r Llywydd newydd. Mewn ateb i'r cais am bynciau trafod, cytunwyd codi'r dimensiwn cenedlaethol
  - ar ol derbyn Cyngor cyfreithiol, cytunodd cynnig i'r CCB newid yn ein Cyfansoddiad er mwyn ffurfioli'r perthynas efo'r CMP
6. Cyfarfod blynyddol:
  - dydd Sadwrn 18 Tachwedd
  - lleoliadau posibl : Cobden's, Plas y Brenin, Plas Tan y Bwlch, Oakley. MT a AW i'w trefnu–cost tua £15
  - adloniant : cytunwyd ar gyflwyniad ar y cyd o daith Nepal
  - cyfansoddiad : gofynwyd i CJ a Dafydd Jones argymhell unrhyw newidiadau angenrheidiol
7. Gohebiaeth:
  - Roedd aelod yn anhapus efo'r cyhoeddusrwydd hyrwyddo newid ffin etholaeth Arfon. Mewn ymateb cytunwyd fod cyfle i aelodau godi arian ar ran unrhyw plaid wleidyddol o'i dewis neu gyd-gerdded
  - Mentrau Iaith Cymru a'r ymgynghoriad ynghlyn a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru : dim Gweithrediad
  - Merched y Wawr a Mesur Llywodreath Cymru a'r Gymraeg : cefnogi

- Merched y Wawr ac ymgorffori Bwrdd yr Iaith i'r Llywodraeth : cefnogi
  - Cytunwyd trafod gohebiaeth perthnasol ym mhob Pwyllgor
8. Adroddwyd fod yr Ysgrifennydd wedi cysylltu a Chlwb Cerdded CF2 er mwyn cynnig teithiau mwy anturus i'w aelodau
  9. Siopau : Roedd siop Gibbs yn Aberhonddu yn cynnig gostyniad o 10% i aelodau CMC.
  10. Llongyfarch Iolo ap Gwynn ar ei benodiad fel aelod o Bwyllgor Awrddurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Cytunwyd gofyn iddo ceisio sicrha enw holl Cymraeg ar gyfer y strwythur newydd ar gopâr Wyddfa. (CJ)
  11. Cyfarfod nesaf : 14 Medi 2006 ym Mhlas y Brenin.
  12. Trafodwyd a chytunwyd ar nifer o deithiau, gan gynnwys dau ar gyfer pobl ifanc 14–25 oed ar y cyd efo Parthneriaeth y Gogledd-Orllewin, yn amodol a materion diogelwch ( CJ ).